Am ymholiadau cysylltwch â: education@rpharms.com

TAFLEN WYBODAETH I GYFRANOGWYR

Anghenion datblygu ymarfer lefel uwch hunan-gofnodedig fferyllwyr sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig: Arolwg trawstoriadol cenedlaethol

Gwahoddiad i Gyfranogi

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn arolwg trawsadrannol cenedlaethol ar anghenion datblygu ymarfer lefel uwch hunan-adnabyddedig fferyllwyr sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig.

Bydd gofyn i chi raddio eich hyder presennol mewn cyflawni pob un o ddeilliannau Cwricwlwm Craidd Uwch Fferyllwyr RPS. Bydd y data a gynhyrchir yn helpu i nodi anghenion datblygu fferyllwyr sy'n gweithio tuag at neu ar lefel uwch, a fydd yn llywio penderfyniadau comisiynu gan y cyrff addysg statudol ym mhob un o'r gwledydd datganoledig (NHSE, AaGIC, NES a NICPLD).

Drwy gymryd rhan rydych yn helpu i lunio'r cymorth addysgol sydd ar gael i fferyllwyr wrth iddynt ddatblygu ymhellach yn eu gyrfa.

Rydyn ni eisiau clywed gennych chi, hyd yn oed os nad ydych chi'n dyheu am rôl fferyllydd uwch ar hyn o bryd, gan fod anghenion datblygu fferyllwyr ym mhob math o rôl o ddiddordeb.
Mae'r daflen wybodaeth hon yn dweud wrthych beth yw pwrpas yr arolwg a beth fydd yn digwydd os byddwch yn penderfynu cymryd rhan.

Dylech gwblhau'r arolwg hwn os ydych:

- Yn fferyllydd sydd wedi cofrestru gyda GPhC neu PSNI
- Yn gweithio neu'n byw yn y Deyrnas Unedig; Lloegr, yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon
- Gweithio mewn unrhyw sector o ymarfer fferyllol

Ni ddylech gwblhau'r arolwg hwn os ydych:

- Wedi cael eich cymeradwyo'n ffurfiol fel 'fferyllydd ymgynghorol parod'
- Mewn swydd fel fferyllydd ymgynghorol

.Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw beth sy'n aneglur neu os hoffech ragor o wybodaeth. Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y daflen wybodaeth hon.

Os ydych yn anghyfarwydd â lefelau ymarfer fferyllydd ymgynghorol ac uwch fferyllydd, darperir gwybodaeth ychwanegol isod.

Ymarfer fferyllydd ymgynghorol

Darparu gofal i unigolion a/neu boblogaethau sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth; dylanwadu ar ofal y tu hwnt i ffiniau gofal iechyd traddodiadol ar draws systemau trwy arweinyddiaeth, addysg ac ymchwil. Mae unigolion wedi dangos bod ganddynt y lefel o gymhwysedd a ddisgwylir gan fferyllydd ymgynghorol ac maent yn gweithio mewn swydd fferyllydd ymgynghorol cymeradwy.

Ymarfer fferyllydd uwch

Fferyllwyr profiadol, sy'n darparu gofal yn annibynnol i unigolion a/neu grwpiau ag anghenion cymhleth, gan ddylanwadu ar wasanaethau yn eich sefydliad a/neu'n lleol, gyda galluoedd uwch ar draws y pedwar piler o ymarfer proffesiynol/clinigol, arweinyddiaeth a rheolaeth, addysg ac ymchwil.

1. Pwy sy'n cynnal yr astudiaeth?

Mae'r astudiaeth yn cael ei chynnal ar y cyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) a'r cyrff addysg statudol ar draws y DU (GIG Lloegr (NHSE), Addysg a Gwella Iechyd GIG Cymru (AaGIC), *NHS Education for Scotland* (NES) a The Northern. Canolfan ar gyfer Dysgu a Datblygu Fferylliaeth Gogledd Iwerddon (The Northern Ireland Centre for Pharmacy Learning and Development) (NICPLD). Mae tri fferyllydd o GIG yr Alban (Paul Forsyth, Andrew Radley a Fiona Marra), Aelod o'r Pwyllgor Gwyddoniaeth ac Ymchwil RPS ac academydd o Brifysgol Aberdeen (Christine Bond) a Phrifysgol Dundee hefyd yn cydweithio ar ddyluniad, dulliau, dadansoddiad ac ysgrifennu'r arolwg. Gofynwyd os oedd angen cymeradwyaeth moesegol a cadarnhawyd nad oedd ei angen gan nad oedd yr astudiaeth yn ymwneud â chleifion, wedi ei ddarparu yn ddienw, a roedd yr amcanion yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda swyddi cyflogedig uniongyrchol yr ymchwilwyr.

2. Beth yw pwrpas yr astudiaeth?

Nod yr arolwg hwn yw adnabod anghenion datblygu ymarfer lefel uwch hunan-gofnodedig fferyllwyr ar draws y Deyrnas Unedig yn erbyn Cwricwlwm Uwch Craidd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), ac unrhyw gysylltiad o rhain gyda nodweddion fferyllwyr unigol. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i lywio trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol ar strwythurau cymorth a phrosiectau wedi'u comisiynu sydd eu hangen i ddatblygu arfer lefel uwch.

3. Pam ydw i wedi cael fy newis?

Rydych wedi'ch gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon gan eich bod yn fferyllydd sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon a'ch bod yn gweithio neu'n byw yn y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, peidiwch â chwblhau'r arolwg os ydych yn fferyllydd sydd eisoes wedi'i gydnabod yn ffurfiol fel 'fferyllydd ymgynghorol parod' neu eisoes yn eich swydd fel fferyllydd ymgynghorol.

4. Sut cefais fy adnabod i gymryd rhan?

Mae'r arolwg hwn a'r wybodaeth ategol wedi'u dosbarthu'n eang gan y partneriaid sy'n cydweithio. Efallai eich bod wedi'i dderbyn oherwydd eich bod yn aelod o'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, neu drwy rwydweithiau lleol neu ranbarthol a gefnogir gan y cyrff comisiynu addysg (NHSE, AaGIC a NES, NICPLD).

Oherwydd y dull hwn o ledaenu, efallai y byddwch yn derbyn gwahoddiad i gymryd rhan fwy nag unwaith. Cwblhewch yr arolwg unwaith yn unig.

Efallai y byddwch hefyd yn derbyn cais atgoffa i gymryd rhan.

5. Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Na. Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Os penderfynwch beidio â chymryd rhan, nid oes angen i chi ddweud pam wrthym.

6. Beth fydd yn digwydd i mi os byddaf yn cymryd rhan?

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cliciwch ar y ddolen ganlynol (arolwg) a fydd yn mynd â chi i'r arolwg; mae'r ddolen hefyd wedi'i chynnwys yn yr e-bost cafodd ei anfon gyda'r Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr hon.

Am ymholiadau cysylltwch â: education@rpharms.com

Gofynnir cyfres o gwestiynau i chi gan gynnwys:

- Eich demograffeg ac eich nodweddion
- P'un a oes gennych ddiddordeb mewn 'cymwysterau lefel uwch', gan gynnwys gofyn i chi ymhelaethu ar eich ymateb
- Eich hyder hunan gofnodedig wrth allu dangos tystiolaeth o'r 25 canlyniad yn y cwricwlwm
    - Bydd gofyn i chi raddio eich hyder hunan-adnabyddedig o ran gallu dangos tystiolaeth o bob cymhwysedd gan ddefnyddio Graddfa Likert 5-pwynt syml; Hyderus iawn, Hyderus, Niwtral, Anhyderus, Gwir Anhyderus.

Disgwylir i'r arolwg gymryd 10-15 munud.

7. Beth yw manteision posibl cymryd rhan?

Efallai na fyddwch yn elwa'n uniongyrchol o gymryd rhan. Fodd bynnag, bydd y wybodaeth a geir yn helpu i asesu anghenion datblygu fferyllwyr mewn perthynas â'r safon lefel mynediad uwch graidd i lywio trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol ar strwythurau cymorth gofynnol. Gall hyn arwain at brosiectau a gomisiynir i ddatblygu 'ymarfer lefel uwch' ac o bosibl ffurfio rhaglenni hyfforddi newydd.

8. A fydd cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn cael ei gadw'n gyfrinachol?

Ie. Ni fydd unrhyw ddata adnabyddadwy cyfranogwr yn cael ei gasglu; bydd yr holl ddata yn cael ei gasglu'n ddienw.

9. Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth y byddaf yn ei ddarparu?

Mae'r holl ddata a gesglir yn ddienw ac yn cael ei storio ar systemau cyfrifiadurol RPS a ddiogelir gan gyfrinair.

Bydd yr RPS yn arwain ar gasglu data. RPS fydd yn berchen ar y data gyda chytundeb rhannu data yn ei le gyda NHSE, AaGIC GIG, a GIG NES a NICPLD ar gyfer cydberchnogaeth ar ddata eu gwlad.

Bydd Prifysgol Dundee yn arwain ar gynnal dadansoddiad ystadegol o'r data. Bydd y dadansoddiad ystadegol hwn yn pennu a yw unrhyw rai o ddemograffeg a nodweddion y cyfranogwr yn gysylltiedig ag anghenion hyfforddi hunangofnodedig. Dim ond gyda phwyllgor llywio'r prosiect y bydd Prifysgol Dundee yn rhannu eu dadansoddiad.

Bydd y data ansoddol ar resymau'r cyfranogwr dros fod â diddordeb, neu beidio, mewn ymarfer ar lefel uwch yn cael ei ddadansoddi ar wahân yn ddiweddarach ar gyfer themâu cyffredin.

Mae'r RPS yn cymryd diogelu data o ddifrif. Darllenwch ein polisi preifatrwydd i gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data a beth yw eich hawliau.

10. Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd adroddiad o'r canfyddiadau yn cael ei gynhyrchu. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn cael eu cyflwyno i uwch dimau fferylliaeth ar draws GIG Lloegr, GIG yr Alban, GIG Cymru ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon. Gellir ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid a gellir ei gyflwyno hefyd mewn amryw o gyfarfodydd a chynadleddau (e.e y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, y Llywodraeth, y GIG, ac ati).

11. Os oes gennych gwestiynau pellach?

Am ymholiadau cysylltwch â: education@rpharms.com

Os hoffech ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at education@rpharms.com.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y daflen hon ac am ystyried cymryd rhan yn yr arolwg.